Gweiddi

## Tasg 2

# Dathlu yng Nghymru

Mae ffrind post mewn gwlad arall yn anfon e-bost yn gofyn i chi sut mae pobl Cymru'n dathlu'r Flwyddyn Newydd fel arfer.

Trafodwch hyn mewn grŵp a gwnewch nodiadau i ddechrau – pwyntiau bwled, e.e.

- tân gwyllt am ganol nos
- canu
- rhai pobl yn mynd o dŷ i dŷ gyda'r Fari Lwyd (pen ceffyl wedi ei wneud o gardbord ac wedi ei osod ar bolyn sydd wedi ei orchuddio â blanced wen a rhubanau); canu; cael parti
- plant – aros ar eu traed tan ganol nos i weld y Flwyddyn Newydd i mewn

Yna, ysgrifennwch e-bost at eich ffrind yn cynnwys y prif bwyntiau. Ysgrifennwch mewn brawddegau llawn.

| | |
|---|---|
| At: | Claude |
| Oddi wrth: | |
| Testun: | Dathlu'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru |

| Geirfa | | |
|---|---|---|
| aros ar eu traed | aros ar lawr (yn hwyr efallai) – heb fynd i'r gwely | to stay up |